



CANLYNIAD



MANYLEB ASEINIAD AC ADBORTH

CANOLFAN ADDYSG ATHRAWON DE-ORLLEWIN CYMRU

*Dylai'r adrannau sydd â * gael eu cwblhau gan yr arweinydd modwl*

Enw'r Myfyriwr:		Rhif P y myfyriwr:	
Rhaglen:*	TAR Cynradd		
Modwl:*	Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion	Lefel y Modwl (6 neu 7):*	7
Cod y modwl:*	M7X02151	Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):*	70%
Arweinydd modwl:*	Helen Lewis / Gail Parker / Sarah Elsey		
Teitl yr Aseiniad:	Aseiniad ysgrifenedig o 4,500 o eiriau	Rhif yr Aseiniad (x o x):*	1/2
Dyddiad cychwyn:*	5/3/18	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno:*	30.5.18
Dyddiad dychwelyd y marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:*	27.6.18		

Cyfeirnod:	Ym mhrif ran eich gwaith, mae'n rhaid i chi gydnabod awduron y mae eu hymchwil yn sail i'ch gwaith. Dylech atodi rhestr gyfeirnod i'ch gwaith sy'n dangos y llyfrau, erthyglau ayyb, rydych chi wedi'u darllen neu eu dyfynnu er mwyn cwblhau'r aseiniad hwn (e.e. ar gyfer llyfrau: cyfenw'r awdur a'i lythrennau cyntaf, blwyddyn cyhoeddi, <u>teitl y llyfr</u> , argraffiad, cyhoeddwr: man cyhoeddi).		
Cyflwyno:	Rhaid cyflwyno pob aseiniad gan ddefnyddio Turnitin, heblaw bod y darlithydd yn dweud yn wahanol. Sylwer: y fersiwn Turnitin yw'r prif gyflwyniad ac mae'n gweithredu fel derbynneb i'r myfyriwr. Bydd cyflwyno'r fersiwn electronig o'r aseiniad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc gosb hwyr Cosbau ar gyfer cyflwyniadau hwyr: Hyd at un wythnos yn hwyr, uchafswm o radd D. Mwy nag wythnos yn hwyr, Cyfeirio. Dim ond y Panel Amgylchiadau Esgusodol all roi estyniad.	Dyddiad:	30.5.18

Dylai'r arweinydd modwl roi tic yma i ddangos a oes rhaid cyflwyno copi caled o'r aseiniad neu beidio.

IE

NA

✓

Deilliannau Dysgu a brofir (o faes llafur y modwl)	Meini Prawf Asesu: I gyflawni pob deilliant, rhaid i fyfyrwr ddangos y gallu i:
• Esbonio cyfrifoldebau athrawon wrth weithio'n agos â rhieni, llywodraethwyr, awdurdodau lleol ac asiantaethau sy'n cynorthwyo ysgolion a'r gymuned ehangach. • Dadansoddi data perfformio yn gywir fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan ddangos dealltwriaeth o'r gofynion cenedlaethol sy'n ymwneud â chynnydd o fewn y cwrwla statudol ac anstatudol. • Nodi strategaethau asesu ffurfiannol a chrynodol priodol, ac adfyfrio yn feirniadol ar eu heffeithiolrwydd wrth ymgymryd ag arfer ystafell ddosbarth. • Adfyfrio yn feirniadol ar eu dysgu eu hunain, gan dynnu ar ddamcaniaethau perthnasol a phrofiad personol.	• Draffod y casglu data proffesiynol bwriadedig gan gyfiawnhau ei gyfaddasrwydd a'i ddiben. • Gynorthwyo'r drafodaeth drwy gyfeirio at amrywiaeth o lenyddiaeth berthnasol. • Integreiddio damcaniaeth ac arfer gan ystyried y cyd-destun addysgol. • Draffod y materion moesegol hynny y dylid eu hystyried yn ystod yr asesiadau. • Ysgrifennu darn o waith sydd wedi'i strwythuro'n dda gan ddefnyddio arddull ysgrifennu gydlynol.

Ffurflen Hunanwerthuso Myfyriwr

Mae'r adran hon yn ailadrodd yn gryno'r meini prawf asesu cyffredin sydd ar y tudalennau blaenorol. Y *graddau* y byddwch yn arddangos y rhain sy'n pennu eich marc. Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, ticiwch y blwch sy'n dangos orau lefel y cyrhaeddiad rydych chi'n teimlo i chi ei gyflawni mewn perthynas â phob un ohonynt.

Meini Prawf Asesu Cyffredin a Ddefnyddiwyd	CYFEIRIO		D	C	B	A
	METHU'N LLWYR	ANFODDHA OL	BODDHAOL	DA	DA IAWN	RHAGOROL
1. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Pwnc (gan gynnwys llenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil a gwybodaeth a dealltwriaeth o'r pwnc)	☐	☐	✓	☐	☐	☐
2. Sgiliau Deallusol (Dadansoddiad)	☐	☐	✓	☐	☐	☐
3. Cymwysadau Pedagogaid a Phroffesiynol (Cymhwysiad a Defnydd Ymarferol)	☐	☐	✓	☐	☐	☐
4. Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol	☐	☐	✓	☐	☐	☐

RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO EICH BOD WEDI PERFFORMIO'N DDA YNDDYNT	RHOWCH SYLWADAU AR FEYSYDD RYDYCH CHI'N TEIMLO BOD ARNOCH ANGEN EU DATBLYGU

Enw'r myfyriwr	Ruth Bennett	Dyddiad	30.05.18
Llofnod y Myfyriwr	Ruth Bennett		

‘Cynorthwyo cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau’r camau dysgu nesaf.’

Lleolwyd yr ysgol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed mewn tref ar gyrion Abertawe. Ar hyn o’r bryd, tua 250 o ddisgyblion sydd yn mynychu’r ysgol gyda 30 ym Mlwyddyn 1, sef dosbarth y disgybl dan sylw. Mae rhan fwyaf o’r dosbarth gydag o leiaf un rhiant sydd yn medru ar yr iaith Gymraeg; Gyda’r lleiafrif wedi’i magu ar aelwydydd uniaith Saesneg. Cynrhan isel sydd yn deilwng o brydiau ysgol am ddim; 4.4% ar gyfartaledd dros y tair blynedd diwethaf.

Wrth ystyried nodiadau dyddiol cymerwyd gennyf gallaf gyflwyno cymeriad y disgybl er mwyn cynnig cyd-destun ar gyfer yr ymchwil. Mae’r disgybl ffocws yn ferch frwdfrydig sydd yn hapus i rannu barn gyda’i chyfoedion ac oedolion y dosbarth. Mae’n ddisgybl hyderus a pharchus sydd yn gweithio’n galed ac eisiau plesio. Ymysg ei chyfoedion mae’n un sydd yn arwain gemau, yn ffrind da ac yn cymdeithasu gyda nifer fawr o aelodau’r dosbarth. Mae’n mwynhau gweithgareddau tu allan i’r ysgol gan gynnwys rygbi, nofio a dawnsio yn a gwyllo sioeau gerdd. Ieithoedd y cartref yw Cymraeg a Saesneg gydag un rhiant, y fam, yn siarad Cymraeg.

Wrth ystyried cyrhaeddiad y disgybl o fewn cyd-destun y dosbarth mae tasgau sydd wedi’i wahaniaethu ar lefel uwch fel arfer yn cael ei osod iddi hi. Wrth ymgymryd â thasgau ffocws byddai’r disgybl yn gweithio o fewn grŵp o chwech. Trafodwyd y grwpio gyda’r athrawes dosbarth ac maent wedi’i ei osod o fewn grwpiau gallu i raddau gyda dau grŵp uwch, dau grŵp canolig ac un is. Fel myfyriwr penderfynais gydlynu gyda’r grwpio hyn ar ddechrau fy lleoliad. Wrth ystyried deilliannau’r cyfnod sylfaen nodwyd gan yr athrawes ei fod yn gweithio ar ddeilliant 4 yn gyson ar draws y meysydd dysgu ac yn debygol o ennill o leiaf deilliant 5 ar ddiwedd y cyfnod sylfaen.

Er mwyn casglu data ar gyfer yr ymchwili yma defnyddiwyd y Dull Mosaig (Clark a Moss, 2011). Mae'n ddull cynhwysfawr sydd yn cwmpasu arfau casglu data amrywiol er mwyn cael darlun cyflawn o'r disgybl ffocws. Mae'r dull yn galluogi'r ymchwiliwyr i arsylwi'r disgybl yn y dosbarth, dadansoddi'r hyn a gyflawnwyd yn ogystal ag ystyried barn y disgybl am eu cyrhaeddiad, ai dysgu eu hunain. Mae'n bosib hefyd dewis a dethol y dulliau casglu data sydd yn fwyaf priodol ar gyfer y plentyn penodol. Mae rôl y plentyn wrth gasglu'r data yn hanfodol er mwyn cael deall ei phersbectif nhw.

'The Mosaic approach combines the traditional methodology of observation and interviewing with the introduction of participatory tools.' (Clark, 2011)

Wrth gasglu data ar blant rhaid ystyried oblygiadau moesegol sydd yn deillio o hyn. Cyn ymgymryd ag ymchwili ar blant o fewn cyd-destun ysgol roedd yn bwysig darllen a chydlynu at ganllawiau BERA (2011). Yn ogystal â hyn roedd ystyried polisiâu'r brifysgol ar ymchwili ac ymddygiad yn bwysig cyn mynd ati i gynnal yr ymchwili. Roedd cydymffurfio gyda pholisiâu diogelu plant yr ysgol a'r brifysgol yn sicrhau fy mod i'n diogelu'r plant a fy hunain.

Er mwyn sicrhau anhysbysrwydd ni fyddaf yn datgelu enw'r plentyn na'r ysgol yn fy ymchwili. Byddaf yn digoeli'r data yn ôl canllawiau'r brifysgol. Cyn cynnal unrhyw arsylwadau derbyniais ganiatâd oddi wrth yr ysgol gan yr athrawes dosbarth a thrafodwyd gyda'r plentyn fy mod yn casglu gwybodaeth er mwyn defnyddio yn fy ymchwili a derbyniwyd cydsyniad ar lafar gan y disgybl. Esbonnir hefyd bod hawl i dynnu cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg.

Un dull casglu data ansoddol a ddefnyddiwyd yn yr ymchwili oedd arsylwadau.

'Prif ddiben arsylwi ar blant yw penderfynu ble maen nhw ar y continwmm dysgu er mwyn eu symud yn eu blaen, ac er mwyn nodi unrhyw anawsterau, camddehongliadau neu gamddealltwriaethau.' (APADGOS, 2008)

Roeddwn wedi cynnal arsylwad wers gan ffocysu ar y plentyn ffocws yn unig i weld ymateb, ymrwymiad a chyrhaeddiad y disgybl. Nodwyd anawsterau a chryfderau yn ogystal â pha weithgareddau roedd y disgybl wedi elwa o a mwynhau. Nodwyd ei ymrwymiad gyda'r cyfoethogi o fewn y ddarpariaeth barhaus a sut oedd yn cydweithio gydag unigolion eraill. Er bod yr arsylwad yn gyffredinol ac yn benagored, penderfynwyd dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi ffocws i'r arsylwad.

- datblygiad sgiliau'r plant s yr hyn mae'r plant yn ei ddeall
- ymrwymiad y plant i'w dysgu s y dewisiadau personol mae'r plant wedi'u gwneud
- diddordebau'r plant a lefelau canolbwyntio s cydberthnasau'r plant â'u cyfoedion ac oedolion
- patrymau ymddygiad y plant, (meysydd sydd angen mwy o sylw, fel clyw, golwg, cyfnod eu canolbwyntio). (APADGOS, 2008)

Mantais o'r arsylwad cychwynnol oedd gosod gwaelodlin a dod i nabod y disgybl yn gychwynnol. Mantais arall o gynnal arsylwad ar ddechrau fy lleoliad oedd nad oeddwn yn nabod y plentyn ac roedd gen i lai o ragdybion am y plentyn. Roedd yn bosib bod yn fwy diduedd. Rhai anfanteision oedd, un wers yn unig roeddwn wedi arsylwi yn fanwl oherwydd cyfyngiadau amser, felly nid oedd yn bosib gweld tueddiadau yn unrhyw wybodaeth a chasglwyd. Yn ogystal â hyn nid oedd yn bosib canolbwysio ar y disgybl ffocws yn unig yn ystod y cyfnod arsylwi oherwydd roedd angen casglu gwybodaeth am anghenion yr holl ddosbarth.

Y fantais gryfaf am y dull yma o gasglu data oedd nid oedd yn amharu ar ddysgu'r plentyn ac wrth ystyried lles y plentyn roedd y dull yma yn un addas. Roeddwn i fel oedolyn yn cymryd nodiadau, nid oedd unrhyw ddyfeisiau recordio ac roedd y dosbarth a'r athrawes dosbarth yn medru parhau gyda'r wers heb amhariaeth arnyn nhw. A dyna'r rheswm pam penderfynais ei fod yn briodol i gynnwys yn y dull mosaig.

Cedwir nodiadau dyddiol o arsylwadau dros gyfnod o dair wythnos er mwyn cofnodi sylwadau cyffredinol. Roedd y rhain yn ddefnyddiol yn enwedig wrth gofnodi lles y disgybl. Roedd yn bosib gweld sut oedd pethau'n datblygu dros amser ac roedd yn bosib cysylltu'r hyn a nodwyd yng cyd-destun y diwrnod a'r wythnos. Roedd cofnodi fel athro oedd yn addysgu'r plentyn dros y cyfnod yn rhoi safbwynt unigryw i'r data a fyddai'n cynnig golwg wahanol pe bai athro arall yn arsylwi. Nodwyd pwysigrwydd yr arddull yma gan Baumfield et al (2012).

Cynhaliwyd taith dysgu gyda'r plentyn a nodwyd pa ardaloedd o fewn a thu allan o'r ystafell ddosbarth oedd yn ddefnyddiol, pa rhai oeddent yn hoffi defnyddio a pham. Roedd yr elfen yma yn gydfyd gyda chysyniadau Clark a Moss (2011) am glywed llais y plentyn ac roedd yn ganolog i'r ymchwil. Cofnodwyd ar ffurf nodiadau ar dabl darpariaeth barhaus er mwyn cysylltu sylwadau gydag ardaloedd penodol. Clywir llais y plentyn yn gryf ac roedd yn bosib cymharu beth welais i o fewn yr arsylwad wers gyda barn y disgybl am ei dysgu ei hunain. Felly roedd yn arf ymchwil effeithiol.

Ar ddiwedd y cyfnod o dair wythnos cynhelir cyfweiliad gyda'r disgybl ffocws. Trafodwyd y gwersi a addysgwyd dros y cyfnod yn ogystal â barn nhw am ei dysgu. Gwelir y cwestiynau yn atodiad 3.

Er mwyn tracio cyrhaeddiad dros y tair wythnos cofnodir y tasgau ffocws a orffennwyd yn y cofnod olrhain. Manteision y dull yma o gasglu data yw ei fod yn drafod nodau'r wers benodol sydd yn cael ei gysylltu gyda sgiliau. Mae'n bosib gweld os oedd y disgybl targed wedi llwyddo yn y tasgau ffocws ac os na, beth oedd yr anawsterau penodol oedd yn rhwystro'r llwyddiant. Dros gyfnod o amser byddai'r dull yma o gasglu data yn fwy meintiol

a byddai'n bosib gweld tueddiadau yn y data. Ystyrir y dull yma yn asesiadau ffurfiannol o'r gwaith a chyflawnwyd.

Wrth gyfeirio at yr arsylwad wers gychwynnol (atodiad 1) dysgwyd llawer am agwedd y plentyn at ddysgu. Gwelwn o'r ffaith ei fod wedi ymateb i gwestiynu cychwynnol oedd yn digwydd ar y carped bod y disgybl yn hyderus. Mae ei hymateb cadarnhaol at ddulliau asesu ar gyfer dysgu megis cwestiynu yn dangos tystiolaeth o sgiliau meddwl yn datblygu.

Wrth arsylwi'r dasg ffocws roedd y disgybl wedi ymrwymo yn y dasg. Roedd yn wyladwrus i fwrw ymlaen gyda'r dasg heb wirio gyda'i chyfoedion a'r athrawes dosbarth. Roedd rhaid i'r athrawes annog hi i roi cynnig ar gwestiwn yn annibynnol gan ofyn cwestiynau ychwanegol iddi hi i ysgogi hyn. Mae hyn yn dangos bod y disgybl eisiau plesio ac efallai nad ydy eisiau rhoi cynnig heb y sicrwydd o gyrraedd ateb cywir yn syth. Mae'r elfen bod yn bryderus o gymryd risg yn thema gwelwn yn y data arall a chasglwyd.

Yn ogystal â thasg ffocws cyflawnwyd rhai o'r grŵp her annibynnol sef rhif yr wythnos. Mae'r her yn cynnwys dyblu, odrif neu eilrif, 10 yn fwy a 10 yn llai yn ogystal â symiau sy'n hafal i'r rhif. Nid oedd y disgybl ffocws yn hyderus gydag odrifau ac eilrifau ac yn chwilio am gadarnhad bod ei hateb hi yn gywir wrth y disgyblion eraill, roedd sawl un ohonynt wedi cael ateb oedd yn groes i'w hateb hi ac felly newidydd hi'r ateb (er bod yr ateb yn gywir ganddi yn gychwynnol). Mae hyn yn dangos bod barn disgyblion eraill yn bwysig ac mae angen datblygu hyder wrth gynnig atebion. Mae'n dangos hefyd ei fod eisiau gwirio'r atebion ac mae'n defnyddio'r hyn sydd o'i chwmpas i wneud hyn.

Cyfngiadau gyda'r arsylwad yma oedd, dim ond yng nghyd-destun gwers mathemateg yn unig. Os byddaf wedi arsylwi gwers iaith neu thema efallai bydd ymateb y disgybl yn

wahanol. Credaf fod yn debygol oherwydd cryfderau a gwendidau'r disgybl dros bynciau amrywiol. Ond, roedd y themâu daeth i'r amlwg yn rhai sydd yn ymwneud gydag agwedd ac ymateb y plentyn at ddysgu ac felly mae'n debyg bydd y rhain yn ymddangos ar draws dysgu'r plentyn.

Er mwyn darganfod llais y plentyn am ei addysgu ei hunain a roddwyd cyfle i'r plentyn dangos yr amgylchedd dysgu, esbonio'r pwrpas yr ardaloedd a mynegi barn am ba elfennau ei roedd yn hoffi neu elw ohoni. Gwelwn yn atodiad 2 roedd gan y disgybl llawer i'w ddweud am yr ardal chwarae rôl a'r ardal ysgrifennu. Nid oedd wedi sôn am y llechi, gliniadur na'r ardal mathemateg. Wrth drafod gyda'r plentyn roedd yn hoff iawn o actio a bod yn gymeriad yn y 'siop trin gwallt' roedd yn hoff iawn o ddefnyddio propiau. Wrth drafod beth hoffai weld yn y siop trin gwallt roedd wedi sôn am dil a llyfr i gadw apwyntiadau.

Yn ogystal â'r siop trin gwallt roedd yr ardal ysgrifennu yn destun drafod. Roedd yn sôn am y llythrennau a geiriau ar y wal sydd yn helpu hi i ysgrifennu.

Cynhaliwyd cyfweiliad gyda'r plentyn ar ddiwedd fy nghyfnod o dair wythnos yn addysgu. Gwelir y cwestiynau yn atodiad 3. Wrth ymateb i gwestiwn 4 (Sut wyt ti'n gwybod pan rwyd ti wedi llwyddo yn y dasg?) roedd yn ansicr. Roeddwn wedi cwestiynu ymhellach i ofyn a ydy bod yn ymwybodol o nod y dasg yn helpu a atebodd yn gadarnhaol.

Roedd wedi sôn am helpu'r frân yn yr ardal leol. Roedd yn teimlo ei bod eisiau gwneud y tasgau i helpu'r frân ac roedd yn hwyl. Ei hoff dasg yn ystod yr wythnosau diwethaf oedd disgrifio adeilad yn y pentref. Roedd yn hapus ei fod wedi dysgu geiriau gwych ac roedd eisiau defnyddio mwy ohonynt. Mae boddhad y disgybl wedi ei adlewyrchu yn asesiadau ffurfiannol o waith y disgybl, roedd wedi llwyddo yn y tasgau yma ac fe all ymrwymiad y

disgybl yn ei waith wedi cyfranogi tuag at llwyddiant yn y desgiau. Yn ogystal â hyn gwelwyd y disgybl yn defnyddio'r geiriau gwyb yn ei iaith lafar yng nghyd destunau eraill megis yn yr ardal adeiladu i ddisgrifio pethau roedd wedi creu.

Mae'r tablau atodwyd (atodiad 4) yn dangos cyfnod ôl-rhain sydd yn asesiad llwyddiant y disgybl i gyrraedd nod y dasg yn y tasgau ffocws. Mae'r lliwiau goleuadau traffig yn cynrychioli cyrraedd y disgybl. Mae gwyrdd yn cynrychioli llwyddiant. Mae oren yn cynrychioli ansicrwydd a'r angen i ail ymweld â'r sgil ac mae coch yn golygu nid oedd y disgybl wedi deall nod y wers o gwbl.

Gwelwn ar y cyfan fod y disgybl wedi llwyddo yn y tasgau a osodir. Yn y maes dysgu datblygiad mathemategol gwelwn ei fod wedi llwyddo yn y desgiau a osodir. Yr elfen sydd yn sefyll allan yw'r ffaith bod angen anogaeth i ddatrys y problemau'n annibynnol. Gallaf weld trwy nodiadau dyddiol bod hyn yn digwydd yn ystod heriau yn y ddarpariaeth barhaus hefyd.


Wrth edrych ar dasgau ffocws Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu bod y disgybl wedi llwyddo ond angen ymestyn ar ei waith. Yn ogystal â hyn nid ydy'r ffurfio yn gyson yn enwedig wrth ysgrifennu geiriau a llythrennau yn annibynnol heb fat eiriau na sgaffald ychwanegol.

Mae gan y disgybl dealltwriaeth gadarn yn y maes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd. Mae'n gwneud cysylltiadau gydag elfennau eraill o'r cwricwlwm ac yn hyderus wrth ymarfer y sgiliau megis cwestiynu ac ysgrifennu gan ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol.

Cryfderau'r dull yma yw ei fod yn benodol iawn ac yn ffocysu ar feysydd dysgu'r cwricwlwm. Gwelwn y sgiliau mae'r disgybl wedi llwyddo i ymarfer felly mae'n bosib gweld cynnydd y

disgybl wrth edrych ar ddogfennau'r cwricwlwm. Cyfyngiadau'r dull yma yw nid ydym yn gweld barn y disgybl am y tasgau.

Cyflwynwyd system goleuadau traffig i hunain asesu'n meini prawf llwyddiant yn ystod y cyfnod roeddwn yn dysgu. Mae'r system goleuadau traffig yn adeiladu ar sgiliau meddwl y dysgwyr ac yn enghraifft o fetawybyddiaeth (Llywodraeth Cymru 2010:1). Yn ogystal â hyn mae'n ddata defnyddiol i weld sut oedd y dysgwr ei hunain yn teimlo am y dasg. Ynghyd a sylwadau'r athro, mae hunanasesiad yn gallu ychwanegu at y darlun o ddysgu'r disgybl ac yn llenwi'r bylchau mae asesiad ffurfiannol -fel y gwelir yn y cyfnod olrhain yr athro- yn gadael. Mae'n bosib bod disgybl wedi cyflawni'r dasg ac wedi llwyddo ond efallai roedd angen cymorth er mwyn cyrraedd nod y dasg. Neu, efallai roedd y disgybl wedi cyrraedd nod y wers ond mae angen ail edrych ar y sgil er mwyn i'r disgybl ddod yn fwy hyderus.



Dyma enghraifft o'r hunan asesiad, nid oedd y disgybl yn hyderus wrth gyflawni'r M.P.LI heb gymorth. Wrth drafod, nid oedd yn sicr o'r M.P.LI yn ystod y dasg.

Mae arsylwadau cyffredinol yr athro yn bwysig oherwydd gallwn gymharu cyrhaeddiad y disgybl yn y tasgau ffocws a sylwadau cyffredinol am gymorth a dderbyniwyd ac os oes angen herio ymhellach. Roedd yr arsylwadau dyddiol yn amhrisiadwy wrth drafod lles y disgybl.

Rhai o'r prif gasgliadau o'r nodiadau dyddiol oedd gwybodaeth am ddiddordebau'r disgybl. Ar y 21/05/18 gofynnodd y disgybl am rannu am ei phrofiad hi o gymryd rhan mewn sioe gerdd. Daeth a rhaglen o'r sioe i'w ddangos Roedd wedi sôn am weithio fel tîm ac yn mwynhau cymryd rhan gyda'i ffrind. Roedd trafod yn y cyd-destun amser cylch yn galluogi'r dosbarth cyd-nabod llwyddiannau'r disgybl ac roedd yn gyfle i Roedd yn hyderus wrth rannu ac roedd yn gyfle i gyfoethogi ei eirfa wrth drafod.

Yn ogystal â nodi diddordebau roedd yna gyfle i nodi ac asesu defnydd o iaith lafar y plentyn. Nodwyd ei bod hi'n dechrau treiglo ar lafar ac yn defnyddio patrymau frawddeg fel 'Es i'.

Rhaid cydnabod cyfyngiadau'r data a chasglwyd. Ar ddiwrnod arall byddai'r data yn dangos cryfderau a gwendidau gwahanol. Ond, mae'n dangos themâu cyffredinol sydd yn gallu cael ei osod mewn i dargedau ar gyfer y disgybl yma.

Rhaid cydnabod y bylchau yn y data. Er roedd yn bosib casglu data ar rhai o'r meysydd dysgu, nid oedd yn bosib casglu data ar y meysydd dysgu corfforol na chreadigol oherwydd cyfyngiadau amser. Er mwyn wella ar yr astudiaeth byddai cadw cofnodion manwl dros gyfnod hirach yn rhoi cyfle i adeiladu ar y dystiolaeth a chasglwyd yn barod.

Felly wrth grynhoi'r data a chasglwyd gallwn ddod i gasgliadau am sut mae'r plentyn yn dysgu orau. Gwelwn fod gweithgareddau sydd wedi'i sgaffaldio ac wedi ei arwain gan oedolyn yn gyfforddus i'r disgybl. Mae'r disgybl yn mwynhau chwarae rôl ac yn mwynhau ysgogiadau creadigol i'r tasgau cyfoethogi a'r tasgau ffocws. Mae'r disgybl yn elwa yn fawr o weithio gydag eraill ac yn hoff iawn o gydweithio tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Mannau gwan y disgybl yw ei fod yn amharod i gymryd risg ac i gynnig ateb heb fod yn hollol sicr. Mae wedi llwyddo mewn nifer o dasgau ac felly gallwn weld ffordd o herio'r disgybl ymhellach. Nid ydy'n hollol ymwybodol o bwrpas y M.P.LI ac nid ydy'n defnyddio'n rheolaidd i hunanasesu. Yn gyffredinol mae'r disgybl yn ddibynnol i raddau ar fewnbwn ac ymateb disgyblion eraill yn ogystal ag oedolion.

Wrth ystyried deilliannau'r Cyfnod Sylfaen, mae'n bosib awgrymu at ba ddeilliant mae'r disgybl yn gweithio arni ar hyn o'r bryd.

Yn gyntaf hoffwn ystyried Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Daw'r dystiolaeth o arsylwadau ac amser cylch yn hytrach na thasgau ffocws penodol. Mae'r disgybl yn sicr yn dangos nifer o elfennau ddeilliant 5. Nodwyd yn yr arsylwad wers gychwynnol bod y disgybl yn meddwl am anghenion plant eraill trwy roi adnoddau iddynt. Yn ogystal â hyn, mae ganddi syniad cadarn o chwarae teg a ddangoswyd wrth chwarae gem bwrdd.

Byddai dystiolaeth o'r asesiadau ffurfiannol yn arwyddocâd ar ba ddeilliant mae'r disgybl yn gweithio arni gyda datblygiad mathemategol. Mae'n sicr wedi cyrraedd deilliant 4 ac yn dangos elfennau o ddeilliant 5 yn enwedig gyda nodweddion siapau 2D a 3D. Gyda mwy o

dystiolaeth i'w gefnogi efallai byddai'r plentyn yn cyrraedd deilliant 5 ond wrth ystyried y dystiolaeth a chasglwyd byddaf yn awgrymu taw ar ddeilliant 4 mae'r disgybl wedi cyrraedd.

Mae'r dystiolaeth iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu wedi cael ei chasglu o nifer o ffynonellau. Mae'r disgybl yn dangos nodweddion deilliant 5 wrth ystyried ei iaith lafar. Gyda'r llinynnau darllen ac ysgrifennu gwelwn hefyd ambell elfen o ddeilliant 5. Mae'r disgybl yn gadarn ar ddeilliant 4. Yn bennaf yr elfennau sillafu a ffurfio sydd heb gyrraedd deilliant 5 eto.

Yn olaf mae'r maes dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd. Fel trafodir yn gynharach mae'r disgybl wedi cyrraedd nodau'r wers yn rheolaidd ac yn dangos hyder. Mae sacir yn gweithio ar ddeilliant 4 yn y maes dysgu yma.

Er mwyn asesu cyrhaeddiad y disgybl defnyddiais ddogfennau'r cwricwlwm. Byddai defnyddio rhaglen megis Incerts yn ogystal â rhaglen megis Cwmpawd yn cadarnhau'r canlyniadau ac fe ellir ychwanegu at y darlun. Mae rhaglenni trin data mae ysgolion yn defnyddio yn adlewyrchu systemau ar bapur sydd yn cael ei weithredu gan y Brifysgol. Bwriad y rhaglenni yw targedu sgiliau penodol, mesur cynnydd a bwydo yn ôl mewn i gynllunio. Mae'n bosib cadw dystiolaeth i gefnogi'r cyrhaeddiad a hefyd wirio enghreifftiau er mwyn sicrhau safonau cymedrol ar draws yr ysgol. Yn sgil yr ymchwil, nad oedd cyfle cael mynediad at y rhaglenni yma.

Wrth ystyried y camau nesaf ar gyfer y plentyn byddaf yn amlinellu strategaethau cyffredinol bydda'i phob disgybl yn fy nosbarth yn elwa ohoni yn ogystal â rhai penodol sydd yn ateb anghenion y disgybl ffocws.

Un o'r prif linyddau gallwn weld wrth ystyried y wybodaeth a'r data a chasglwyd yw bod angen ysgogi'r disgybl yma i ddod yn fwy annibynnol yn ei dysgu. Daw'r elfen yma i'r amlwg wrth ystyried cwricwlwm newydd sydd yn ymateb i adroddiad yr athro Graham Donaldson yw bod angen datblygu dysgwyr annibynnol sydd yn fentrus ac yn uchelgeisiol. (Donaldson 2015). Mae ystyried dibenion y cwricwlwm newydd wrth feddwl am y ffordd ymlaen yn bwysig oherwydd mae'n bosib gwneud cysylltiadau mwy arwyddocaol ar draws meysydd dysgu'r cwricwlwm presennol.

Felly, pa strategaethau byddai'n cyfrannu tuag at y nod yma? Fe all y defnydd o M.P.LI clir fod yn un strategaeth. Mae angen i mi fel athro datblygu hyn o fewn y dosbarth a sicrhau bod y disgyblion yn glir ar sut i'w ddefnyddio'n briodol er mwyn gwneud unrhyw fath o wahaniaeth. Wrth i'r disgyblion fod yn ymwybodol o'r M.P.LI yn ystod y dasg fe fyddant yn fwy sicr o sut i gyrraedd nod y wers.

Hoffwn i ddatblygu system allwedd lliw sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio o fewn ysgolion lleol i annog y disgybl i chwilio am enghreifftiau o'r M.P.LI yn ei waith. Gallaf hefyd drafod nod y wers a'r M.P.LI yn fwy manwl ar ddechrau'r wers. Yn ogystal â hyn, ar gyfer y disgybl yma byddai rhoi perchnogaeth dros bennu M.P.LI ei hunain yn datblygu ei sgiliau ymhellach ac yn hybu sgiliau hunan werthuso fwy dwys.

Daw dystiolaeth am effeithiolrwydd datblygu sgiliu metawybyddiaeth megis pennu M.P.LI o'r fframwaith sgiliau. Cefnogwyd fframwaith sgiliau trawscwricwlaidd gan sawl ddamcanwyr gan gynnwys Shneider (2008) Black a Wiliam (1998) a drafodwyd sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu fel rhan o fetawybyddiaeth addysgu a dysgu.

Felly, oherwydd ei natur fe all sgiliau meddwl dod ar draws y meysydd dysgu. Felly, un targed i fi fel athro yw datblygu system M.P.Ll fwy addas i'r disgybl a tharged i'r disgybl byddai defnyddio'r system newydd wrth gwblhau tasgau ffocws.

Wrth annog ysgrifennu sydd yn bwrw elfennau deilliant 5 bydda'i dull sgaffaldio yn ddefnyddiol. Hoffwn ystyried ymagwedd y ddamcaniwr Lev Vygotsky am ddysgu plant a'r weithred o ddysgu. Mae ei ddamcaniaeth adeiledd cymdeithasol yn cynnig strategaeth glir er mwyn herio'r disgybl a sicrhau dysgu effeithiol.

Esboniodd Vygotsky:

'Every function in the child's cultural development appears twice: first, on the social level and, later on, on the individual level; first, between people (interpsychological) and then inside the child (intrapsychological). This applies equally to voluntary attention, to logical Memory, and to the formation of Concepts. All the higher functions originate as actual relationships between individuals.' (Arthur and Cremin, 2010)

Prif nodweddion y ddamcaniaeth yw'r berthynas a'r cyfathrebu sy'n digwydd rhwng y dysgwr a'r addysgwr. Nid yr athro yn unig mae Vygotsky yn ystyried yn addysgwr, ond disgyblion eraill hefyd. Elfen arall o'r ddamcaniaeth yw bod y dysgwyr yn ymwybodol o'r broses dysgu. Ac felly bydda'i thrafod nod y wers a'r M.P.Ll yn un ffordd o sicrhau hyn. Mae rhoi'r cyfle yn gyntaf i ddatblygu'r sgil gyda'r athro cyn cadarnhau yn fewnol yn holl bwysig.

Felly, strategaeth a fydda'i dilyn hyn byddai modelu clir gennyf fi cyn i'r dasg cychwyn. Yn ogystal â hyn byddai rhoi cyfle i ddisgyblion ymarfer y sgil mewn parau ac yna rhannu'r canlyniadau yn ffordd arall o ddefnyddio dull Vygotsky. Wrth gynnig y cyfleodd bydd dewis y sgiliau mathemategol priodol yn dod yn fwy rhwydd i'r disgybl a byddant yn gallu parhau gyda'r dasg yn fwy annibynnol.

Dewiswyd y dull adeiledd cymdeithasol yn hytrach na dulliau mwy ymddygiadol megis dull Skinner oherwydd natur y disgybl. Mae'r disgybl yn barod i ddysgu ac yn cymryd diddordeb yn yr hyn mae'n dysgu felly nid oes angen canlyniadau cadarnhaol neu negyddol i ysgogi'r dysgu. Mae yna system

pwyntiau Dojo (classdojo.com 2018) yn yr ysgol sydd yn adlewyrchu agweddau ymddygiadaeth ond teimlaf nid yw'n addas i ysgogi'r targedau penodol y dysgwr yma.

Strategaeth arall o annog yr ysgrifennu byddai cynnwys fwy o gyfleoedd o fewn yr ardaloedd trwy ei gyfoethogi. Byddaf yn cyflawni cynllun newydd ar gyfer yr ardal chwarae rôl gan ddilyn llais y plentyn. Byddai cynllunio gyda'r dosbarth yn creu ardal byddant yn fwy tebygol o ddefnyddio'n annibynnol. Byddai ychwanegu geirfa a phatrymau frawddeg i'r ardal yn ffordd o sgaffaldio er mwyn ysgogi ysgrifennu gwell. Bydda'i disgybl ffocws yn elwa'n fawr o hyn oherwydd dyma ardal roedd hi'n dewis yn aml ac yn un mae'n frwdfrydig drosodd.

Byddaf yn symud i ffwrdd o ymarfer geiriau a sillafu'r wythnos oherwydd rwy'n gweld bod ysgrifennu gyda phwrpas yn hytrach na rhestri geiriau cyffredinol yn fwy effeithiol. Mae cyflwyno'r syniad o lythrennedd y drawsgwricwlaidd yn annog i'r dygwyr sy'n llai tebygol o ysgrifennu i roi cynnig arni. Felly wrth gynnig y strategaeth yma, bydd disgyblion eraill y dosbarth yn elwa.

Ffordd arall ymlaen yw'r dull o osod ffordd ymlaen i'r disgybl. Hoffwn fod targedau'r disgybl yn glir yn blaen ei lyfrau'r fel ei bod yn ymwybodol o'r targedu presennol. Daw'r strategaeth yma o arfer dda a welwyd o fewn ysgol leol. Dyma enghraifft o'r fformat fe allwn ddefnyddio.

Targedau Personol - Sgiliau		Enw.....		
 ar ddechrau'r frawddeg				
	4/3/18	7/3/18	1/5/18	
 ~~y~~ <u>D</u>				
				
				
				
				
				
				

Gwelaf yn awr pwysigrwydd defnyddio nifer o ffynonellau i gasglu data ohoni. Gwelaf hefyd daw'r atebion a'r camau nesaf o'r disgyblion fel unigolion yn ogystal ag o ddogfennau'r cwricwlwm. Wrth ystyried llais y disgybl mae asesiadau ffurfiannol yn dod yn fwy cywir ac mae cyd-destun y cyrhaeddiad yn bwysig. Mae'n bosib rhagweld pa sgiliau fydd angen ail ymweld gydag er mwyn ehangu ar ddealltwriaeth y disgyblion. Mae cwestiynu effeithiol o

hyd yn ddull asesu ar gyfer dysgu werthfawr ac wrth ddefnyddio'n gynnil bydd y disgyblion yn dysgu sut i ofyn y cwestiynau hyn o'i hunain.

Yn ogystal â hyn mae'r pwysigrwydd o gynllunio at anghenion y disgybl wedi dod yn fwy amlwg i mi. Er enghraifft, er mwyn i ddisgyblion gweithio at ddeilliant uwch mae angen gyfleoedd iddynt wneud camau tuag at y deilliannau. Mae cynllunio trothwy isel nenfwd uchel yn ffordd dda o ehangu dealltwriaeth disgyblion a chaniatâi iddynt symud ymlaen at y camau nesaf.

Llyfryddiaeth a cyfeiriadau

Alexander, R. (2010) *Towards Dialogic Teaching* (4ydd arg.), Caergrawnt: Dialogos.

APADGOS. (2008) *Arsylwi ar Blant/Observing Children*, Caerdydd: APADGOS.

APADGOS. (2008) *Chwarae a Dysgu Gweithredol - Trosolwg i blant 3-7 oed / Play and Active Learning - Overview for 3-7 year olds*, Caerdydd: APADGOS.

APADGOS. (2008) *Dysgu ac Addysgu Addysgeg / Learning and Teaching Pedagogy*, Caerdydd: APADGOS.

BERA (2011). *Revised Ethical Guidelines for Educational Research*. British Educational Research Association. UK. (<http://www.bera.ac.uk/publications>)

Baumfield, V., Hall, E., Wall, K. (2012) *Action Research: Learning through practitioner enquiry* (2^{il} arg) Llundain: cyhoeddiadau SAGE

Bell, J. (2010). *Doing Your Research Project: A guide for first time researchers in Education and Social Science* (2^{il} arg.). Buckingham: OUP.

Black, P. et al. (2003) *Assessment for Learning: putting it into practice*, Maidenhead: Open University Press.

Cunningham, H. (2006) *The Invention of Childhood*, Llundain: BBC Books.

DCELLS (APADGOS) (2007) *Gwrandio ar Ddysgwyr/Listening to Learners*, Caerdydd: APADGOS.

Denscombe, M. (2010). *The Good Research Guide for small-scale social research projects* (4^{ydd} arg) Buckingham: OUP

Donaldson, G (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Grigg, R. (2105) *Becoming an Outstanding Primary Teacher* Abingdon: Routledge

Hansen, A. (Gol) (2012) *Reflective Learning and Teaching in Primary Schools*. Llundain: SAGE

Hattie, J. (2011). *Visible Learning: Maximizing Impact on Learning*. Llundain: Routledge.

Hopwood, M a Defis, N. (gol.) (2017) *Llawlyfr Darpar-Athrawon Cymru*. Caerfyrddin: Yr Athrofa.
[Llawlyfr mewnol]

Illeris, K (gol.) (2009) *Contemporary theories of learning : Learning theorists in their own words :*
Routledge

Lewis, C. C., & Hurd, J. (2011). *Lesson Study Step by Step: How teacher learner communities improve instruction*. Llundain: Heinemann Educational Books.

Norwich, B., & Jones, J. (Gol.). (2014). *Lesson Study: Making a difference to teaching pupils with learning difficulties*. Llundain: Bloomsbury Academic.

Mercer, N. & Hodgkinson, S. (2011) *Exploring Talk in School*, Llundain: SAGE.

Mercer, N. & Littleton, K. (2011) *Dialogue and the Development of Children's Thinking*, Llundain: Routledge.

Mercer, N. (2000) *Words and Minds: How we use language to think together*, Llundain: Routledge.

Pollard, A. (2008) *Reflective Teaching: Evidence informed classroom (3^{ydd} arg)* Llundain: Continuum.

Schneider, W. *The Development of Metacognitive Knowledge in Children and Adolescents: Major Trends and Implications for Education: Mind, Brain, and Education*, 2008, Vol.2(3), p.114-121

Siencyn, S.W. (2010) *Y Cyfnod Sylfaen: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*, Caerfyrddin: Gwasg Prifysgol y Drindod

Stobbs, N. 'creating a Stimulating Learning Environment', *Practical Pre-school*, 1, 6, Mawrth, 2006, tt. 12

Thomas, A & Lewis, A (2016) *An Introduction to the Foundation Phase Early Curriculum in Wales*, UK: Bloomsbury

Waller, T., Whitmarsh, J., Clarke, K. (2011) *Making sense of theory & practice in early childhood*. Maidenhead: Open University Press.

Gwefannau:

Black, P, & Wiliam, D., Inside the black box November 6, 2001 BERA

<http://weaeducation.typepad.co.uk/files/blackbox-1.pdf> [cyrchwyd ar 29/05/18]

Estyn (2015) Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2014-2015 [Ar-lein]

https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/ESTYN_Annual%20Report%202016%20FINAL_WELSH_Accesible_WEB.pdf [Mynediad ar 29/05/2018]

Estyn (2016) Amgylchedd dysgu ysbrydoledig ar gyfer cyflwyno addysg y Cyfnod Sylfaen [Ar-lein]

<https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-ffeithiol/amgylchedd-dysgu-ysbrydoledig-ar-gyfer-cyflwyno-addysg-y-cyfnod-sylfaen> [Mynediad ar 29/05/2018]

Incerts – (ar-lein) <http://www.assessmentfoundation.org/about-incerts.html> [cyrchwyd ar 29/05/18]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Arsylwi ar blant

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140828-observing-children-cy.pdf> [cyrchwyd ar 29/05/18]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru

http://dera.ioe.ac.uk/11297/2/SKILLS_FRAMEWORK_2007_Welsh.pdf%3Flang%3Dcy

[cyrchwyd ar 29/05/18]

Llywodraeth Cymru (2015) Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen [ar-lein]

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf> [mynediad ar 29/05/2018]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) Pam y mae angen datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130426-why-develop-cy.pdf> [cyrchwyd ar 29/05/18]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) - Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell cysylltiedig ddosbarth?

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130429how-to-develop-thinking-cy.pdf> [cyrchwyd ar 29/05/18]

Moss, P. (2006) Listening to Young Children: Beyond Rights to Ethics in Let's Talk about Listening to Children Learning and Teaching Scotland: ar gael oddi wrth:

http://www.educationscotland.gov.uk/Images/listeningtochildren_tcm4-324433.pdf

[cyrchwyd ar 29/05/18]

Pwyntiau dojo (ar-lein) <https://www.classdojo.com/en-gb/?redirect=true> [cyrchwyd ar 29/05/18]

Reflection models and frameworks

https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/133369/mod_resource/content/1/Reflection%20models%20and%20frameworks..pdf [cyrchwyd ar 29/05/18]

Canolfan Addysg Athrawon De-Orllewin Cymru (2017) Yr Amgylchedd Dysgu

<http://learningaway.org.uk/wp-content/uploads/RL56-Extract-the-Mosaic-Approach-EARLY-YEARS.pdf> [cyrchwyd ar 29/05/18]

Atodiadau

Atodiad 1 arsylwad wers

Atodiad 2 taith dysgu

Atodiad 3 cwestiynnau cyfweliad

Atodiad 4 tablau cyfnod ôlrhain

Atodiad 5 ffurflen caniatad

Atodiad 1 - Arsylwad Wers

Dyddiad: 26/04/18

Nifer o ddisgyblion: 30

Nod y dasg: Amcangyfrif cynhwysedd a datrys broblemau.

Cyflwyniad: Wrth i'r athrawes cwestiynnu cynnigodd y disgybl ffocws ateb yn hyderus. Roedd yn awyddus i ateb ond roedd yn amyneddgar.

Tasg Ffocws: Roedd y disgybl yn cynnig atebion synhwyrol i'r dasg ond in ansicir efallai oherwydd nid oedd yn bosib i fod yn 'gywir' neu'n 'anghywir' oherwydd natur amcangyfrif. Roedd wedi ymateb i gwestiynnu'r athrawes i rhesymu ei hatebion. Roedd wedi hunau asesu trwy trafod gyda'r athrawes am sut roedd hi'n teimlo am y dasg.

Tagiau annibynnol: Rhif yr wythnos- 50

Cafodd drafferth gyda adnabod os oedd yn eilrhif neu'n odrif. Roedd sawl aelod o'r grŵp wedi cynnig ateb anghywir ac roedd y disgybl ffocws wedi newid ei hateb hi i'r ateb roedd gan pawb arall (er ei fod yn gywir yn gychwynnol). Roedd wedi cynnig symiau gan ddefnyddio adio i gyraedd 50. Roedd yn gallu nodi 10 yn fwy a 10 yn llai yn hyderus.

Atodiad 3 – Cwestiynnau cyfweliad

Sut wyt ti'n gwybod bod ti wedi llwyddo yn y dasg?

Wyt ti'n meddwl dy fod wedi cyrraedd nod y wers?

Oedd y meini prawf llwyddiant wedi helpu ti i gyrraedd nod y wers?

Sut wyt ti'n hunan asesu yn y dosbarth fel arfer?

Sut oeddet ti'n teimlo am y ddull o hunan asesu defnyddion ni heddiw? Pa ddull sydd well gennyti ti a pham?

Ble rwyd ti'n hoffi dysgu?

Gyda phwy rwyd ti'n hoffi dysgu?

Am beth wyt ti'n hoffi dysgu?

Beth yw dy hoff peth am ysgol?

Wyt ti'n gwybod dy dargedau di?

Oes yna unrhyw beth rydych chi am drafod am y wers heddiw?

Atodiad 5 – caniadad yr ysgol

 **Prifysgol Cymru**
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Ynglŷn â: TAR Cynradd (gyda SAC); caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseinriad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion - School Development and Pupil Progress' (M6X02151-C) (M7X02153-C)

Annwyl Fentor Dosbarth/Uwch Fentor,

Y mae gofyn i hyfforddeion, ar gyfer modwl 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion' y Brifysgol, nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle y maen nhw wedi'u lleoli sy'n dangos cyrhaeddiad canolog, ac yn ystod eu PAP, archwilio'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu iaith a mathemateg. Gallai'r math hwn o archwilio gynnwys:

- arsyllu;
- gofyn i'r dysgwr i enwi mannau /pethau sy'n ei helpu i ddysgu iaith a mathemateg;
- trafod yr hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu iaith /mathemateg a sut y mae'n teimlo am meysydd hynny gyda'r disgybl a'r/ neu'r athro;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywfaint am ddysgu iaith a mathemateg y dysgwr.

Dylai ymgymryd â'r gwaith hwn gynorthwyo hyfforddeion i ddeall sut mae plant yn dysgu a sut y gallant hwythau ddatblygu eu haddysgu er mwyn sicrhau dysgu effeithiol. Disgwylir i hyfforddeion ymgymryd â'r gwaith hwn yn annibynnol, a rhoddwyd iddynt ganllawiau moesegol llym i'w dilyn, er, hyd y rhagwelwn, byddai gwneud y gwaith uchod yn cyd-fynd ag arfer dyddiol arferol y dosbarth. Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enw'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau

Gofynnwyd i fyfyrwyr:

1. Ofyn am ganiatâd i wneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr)
2. Ddarparu tystiolaeth sy'n cadarnhau bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Byddem felly yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau eich bod wedi gofyn am ganiatâd ac wedi ymgymryd â'r tasgau archwilio drwy lofnodi isod.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):
RUTH BENNETT

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA): YSGOL GYMRAEG

ENW'R UWCH FENTOR/ MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):
LUNED JONES

Dylai'r myfyrwr / fyfyrwraig ofyn ar lafar i'r plentyn: 'Rwy wedi siarad â (enw'r hyfforddai... Miss / Mrs/ Mr) am fy ngwaith, ac rwy'n fodlon iddo gael ei ddefnyddio o fewn eu gwaith nhw. Rwy'n gwybod na chaiff fy enw llawn ei ddefnyddio (Cofnodwch isod eu hymateb).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, cysylltwch â:

Helen.lewis@uwtsd.ac.uk (Arweinydd TAR Cynradd) / sarah.elsey@uwtsd.ac.uk (Arweinydd Modwl)

Diolch yn fawr o flaen llaw,

Tîm Modwl DYChD

Sarah Elsey	Gail Parker
Dr. Helen Lewis	Rachel Wallis
Linda Davies	Nerys Defis
Jayne Morgan	Nana Ryder
Heddwen Davies	

Dyddiad				
Nod y wers	Datrys problemau adio a thynnu geiriol	Cwblhau siapau gymesur	Adnabod nodweddion siapau 3D	Cwblhau patrwm ailadroddus
Sgil	datrys problemau un cam sy'n cynnwys adio a thynnu, gan gynnwys problemau rhif coll, e.e. $7 + \text{''} = 9$, gan ddefnyddio gwrthrychau a lluniau	adnabod a chwblhau llun cymesur neu siâp syml	Adnabod a defnyddio enwau siapiau 2D cyffredin (sgwâr, triongl, petryal, cylch a hanner cylch) a siapiau 3D (ciwb, ciwboid, côn a sffêr) er mwyn dechrau eu cymharu a'u didoli	Dangos dealltwriaeth o batrymau ailadroddus, gan gynnwys siâp a rhif, drwy ddisgrifio, atgynhyrchu ac ymestyn.
COG				
Sylwadau	Wedi darllen y cwestiynnau'n annibynnol a cynnig ffordd synhwyrol o ddatrus y broblem. Angen anogaeth i fynd ati i ddatrys y broblemau'n annibynnol.	Annibynnol	Wedi cwblhau yn annibynnol ar y cyfan ond angen esboniad pellach o 'wyneb crwm' a 'wyneb siâp cylch' – byddaf yn atgyfnerthu geirfa yn y cyflwyniad yn y sesiwn mathemateg canlynol.	Annibynnol, wedi ailadrodd patrymau siapau a lliwiau a chrau rhai ei hunain.

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Dyddiad		
Nod y wers	Darllen a trefni gwybodaeth am y dref i gwblhau'r brawddegau.	Ysgrifennu gwybodaeth am y dref gan ddefnyddio geiriau gwych.
Sgil	Darllen - adnabod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chynnwys testun	Ysgrifennu- defnyddio iaith ysgrifenedig at ddibenion, swyddogaethau a chynulleidfaoedd gwahanol o fewn gweithgareddau dysgu wrth chwarae a gweithgareddau strwythuredig
COG		
Sylwadau	Roedd wedi llwyddo darllen y ffeithiau gyda cymorth o'r grwp a'r cynorthwydd dosbarth.	Er ei fod wedi llwyddo, nid oedd wedi cwblhau'r hunanasesiad. Roedd y brawddegau'n annibynnol ond roedd angen cwestiynnu er mwyn cychwyn pob brawddeg. Atalnodi heb gymorth.

Gwybodaeth a Dealldwriaeth o'r Byd

Dyddiad				
Nod y wers	Didoli nodweddion dynol a naturiol y dref	Ysgrifennu disgrifiad o adeiladau'r dref	Cyflawni grid gweld, meddwl, gofyn fel grŵp	
Sgil	defnyddio geiriau ac ymadroddion syml ar gyfer eu byd ac ymgyswrtio â'r geiriau hynny	meddwl yn greadigol a dychmygus	meddwl am gwestiynau, gofyn y cwestiynau hynny a gwrandao ar yr atebion	
COG				
Sylwadau	Wedi llunio tabl a didoli'n gywir. Ffurio- f, y a b.	Wedi dilyn patrymau frawddeg ond yn dibynnu ar arweiniad yr athro i symyd i'r frawddeg nesaf.	Wedi cyfrannu'n dda at y drafodaeth.	

	<i>Dŵr</i>	<i>Paent</i>	<i>T.GCh</i>	<i>Byd Bach</i>
Atodiad 2- nodiadau taith dysgu	'rwy'n hoffi mesur yn y twba dŵr.		'Mae miss yn dangos pethau i lluniau i ni ar y bwrdd gwyn cyfrifiadur.' - Dim wedi sôn am yr ipads	'Rwy'n hoffi chwarae gyda'r môr ladron a gwneud iddyn nhw siarad.'
<i>Adeiladu</i> 'Ni'n gallu adeiladu pethau fan hyn ond weithiau does dim digon a briciau i 'neud beth fi esiau.'	<i>Chwarae Rôl</i> 'Mae'r siop trin gwallt yn wych!' 'Rwy'n hoffi actio.' Byddai'r disgybl yn hoffi adnoddau ychwanegol fel till a llyfr nodiadau. Mwynhau chwarae gyda ffrindiau.	<i>Wrth y bwrdd</i> Plentyn yn hoffi chwarae gemau gyda'r grwp megis nadroess ac ysgolion a bingo	<i>Ysgrifennu</i> 'Rwy'n defnyddio'r llythrennau a geiriau i helpu fi i ysgrifennu'n dda.' 'Ni'n gallu ymarfer ein llythrennau a ysgrifennu pethau'	<i>Cornel Creu</i> 'Ni wedi creu cychod – roedd un fi wedi arnofio hyd yn oed pan roedd 50 ceiniog a tin ynddo fe.' Disgyblion wedi creu cychod fel gwaith cartref ac wedi defnyddio mewn arbrawf.
<i>Cornel Ddarllen</i> Rwy'n hoffi darllen ar ben fy hunain a gyda ffrindiau.'	<i>Darganfod</i>	<i>Rhif</i> 'Ni'n gallu 'neud rhif yr wythnos os ni esiau.'	<i>Cerdd</i> Plentyn wedi esbonio am 'Amser digyffro' – cyfle pob diwrnod i ymlacio ac i wrando ar gerddoriaeth yn dawel.	<i>Corfforol</i> 'fi'n hoffi rhedeg mas tu fas.'